

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom	Helen Finlayson Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Iau, 9 Mawrth 2023	0300 200 6565
Amser: 09.00	Seneddlechyd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.00 – 09.30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): sesiwn dystiolaeth gyda chyrff iechyd**
(09.30–10.45) (Tudalennau 1 – 23)
Huw Thomas, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jonathan Irvine, Cyfarwyddwr Caffael a Gwasanaethau Negesydd Iechyd,
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Stuart Davies, Cyfarwyddwr Cyllid, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Briff Ymchwil
- 3 Papurau i'w nodi**
(10.45)
 - 3.1 Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i adroddiad y Pwyllgor: Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru**
(Tudalennau 24 – 47)



- 3.2 Llythyr at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)
Llywodraeth y DU ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru**
(Tudalennau 48 – 51)
- 3.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)
Llywodraeth y DU ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru**
(Tudalennau 52 – 57)
- 3.4 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch materion a gododd o sesiwn graffu'r Pwyllgor gyda Phrif Swyddog Nyrsio Cymru ar 26 Ionawr 2023**
(Tudalennau 58 – 62)
- 3.5 Llythyr gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ynghylch Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol**
(Tudalennau 63 – 66)
- 3.6 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch meddyginiaeth ar gyfer pryderon Iechyd meddwl**
(Tudalennau 67 – 68)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**
(10.45)
- 5 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): ystyried y dystiolaeth**
(10.45–11.00)
- 6 Blaenraglen Waith**
(11.00–11.30) (Tudalennau 69 – 84)
Papur 1 – Blaenraglen waith
- 7 Gwasanaethau endosgopi: llythyr drafft**
(11.30–11.45) (Tudalennau 85 – 92)
Papur 2 – llythyr drafft

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health & Wellbeing



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LN/0280/23

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

20 Chwefror 2023

Annwyl Russell

Diolch am anfon copi ataf o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru.*

Mae ein hymateb i argymhellion y pwyllgor wedi'i amgáu.

Yn gywir

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw *Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru*

Mae ymateb manwl i bob un o'r argymhellion i'w weld isod.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Ni fydd iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth yn gwella, ac mewn gwirionedd gall barhau i ddirywio, oni bai bod camau effeithiol yn cael eu cymryd i gydnabod a mynd i'r afael ag effaith trawma, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymdeithas ac achosion ehangach iechyd meddwl gwael. Rhaid i'r neges hon, ynghyd ag uchelgais glir i leihau anghydraddoldebau iechyd meddwl, fod yn ganolog i strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 yn strategaeth draws-lywodraethol, amlasiantaeth ac mae'n cynnwys pwyslais penodol ar gynorthwyo grwpiau sy'n agored i niwed a lleihau anghydraddoldebau.

Un o egwyddorion sylfaenol y strategaeth olynol fydd lleihau anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ddelfrydol yn ei hymateb i'n hadroddiad, ond erbyn Gorffennaf 2023 ar yr hwyraf, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arfarniad gonest o ba ysgogiadau polisi, deddfwriaethol ac ariannol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a phenderfynyddion cymdeithasol eraill iechyd meddwl sydd o fewn rheolaeth Lywodraeth Cymru, a pha rai sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU. I gyd-fynd â'r arfarniad hwn, dylid cael asesiad realistig o'r graddau y gall Llywodraeth Cymru wella iechyd meddwl a

Llesiant y boblogaeth gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ysgogiadau sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU yn cael eu defnyddio i sicrhau'r effaith orau wrth wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r strategaeth bresennol yn strategaeth draws-lywodraethol ac mae wedi'i hategu gan grŵp uwch-swyddogion traws-lywodraethol. Bydd ein strategaeth iechyd meddwl yn y dyfodol yn nodi sut rydym yn bwriadu gwella iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth ymhellach.

Bydd unrhyw strategaeth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddeall mesurau sy'n gallu cynorthwyo ein hawydd i sicrhau gwelliant yn Nangosydd Llesiant 29: Sgôr Llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd hyn yn canolbwyntio ar fesurau ar draws y boblogaeth i wella a chefnogi iechyd meddwl a llesiant, a bydd deall yr ysgogiadau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella hyn yn rhan o'r gwaith.

Fe gydnabyddir yn eang bod yr ysgogiadau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yn gyfyngedig. Er mwyn lleihau lefelau tlodi yn sylweddol, byddai angen i Lywodraeth y DU newid ei dull gweithredu mewn ffordd radical. Nid ydym wedi gorfod ymdopi â digwyddiadau tebyg i'r tair blynedd diwethaf ers datganoli.

Yn unol â'r nodau eang i gyfrannu at ddileu tlodi plant ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rydym wedi parhau i flaenoriaethu a buddsoddi'n sylweddol mewn amrywiaeth o bolisiau a rhaglenni i hyrwyddo ffyniant ac atal a lliniaru tlodi. Er gwaethaf hyn, mae'n parhau i fod yn fater treiddiol ac mae ein hymdrechion gorau wedi'u llesteirio gan benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU.

Er mai gan Lywodraeth y DU y mae'r prif ysgogiadau ar gyfer trechu tlodi – e.e. pwerau dros y system trethi a budd-daliadau – ein blaenoriaeth o hyd fel Llywodraeth Cymru yw diogelu pobl Cymru a'u helpu drwy'r argyfwng costau byw, wrth ymdrechu i sicrhau Cymru gryfach, decach a gwyrddach. O ystyried effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw, mae camau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar dlodi wedi canolbwyntio ar leddfu effaith uniongyrchol tlodi. Eleni (2022/23) yn unig, rydym yn gwario mwy na £1.6bn ar gynlluniau sy'n targedu'r argyfwng costau byw ac ar raglenni sy'n rhoi arian yn ôl i bobl.

Mae adroddiad 'Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol: Ffordd Ymlaen' gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru¹, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, yn amlinellu casgliadau adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys Llwyth Meddwl ac Iechyd Meddwl – Mynd i'r afael â'r baich emosiynol a seicolegol a ysgwyddir gan bobl sy'n byw mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy fynd i'r afael â stigma ac (ail)ddynoli'r 'system' a thrin pobl â'r parch a'r urddas y maent yn ei haeddu. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried wrth i ni fwrw ymlaen â'n

¹ [Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Ffordd ymlaen gan Dan Bristow, Anna Skeels, Manon Roberts ac Isabelle Carter Cyhoeddwyd mis Medi 2022](#)

hymrwymiad i ddull llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb a chyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu drwy ystyried tlodi, er mwyn diwallu anghenion presennol a sicrhau newid mwy hirdymor.

Yn ystod 2023, rydym yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yn ogystal â'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw mewn dull dau gam o ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant Cymru ddiwygiedig sydd wedi ei llunio ar y cyd. Mae'n bwysig nodi bod y gwaith hwn yn cynnwys gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Erbyn mis Rhagfyr 2023, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth bresennol, ac ymchwil bellach pe bai ei hangen, i archwilio effaith system les y DU ar iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, a pha effaith y gallai datganoli lles a/neu'r gwaith o weinyddu lles ei chael ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd corfforol a meddyliol yng Nghymru. Dylai'r adolygiad a'r ymchwil ystyried materion yn ymwneud ag egwyddor, yn ogystal ag ymarferoldeb a goblygiadau ariannol cysylltiedig cadw'r sefyllfa bresennol neu unrhyw ddatganoli pellach. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi canlyniad yr adolygiad a'r ymchwil.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw ymchwilio i'r ffordd y mae ymwneud â system nawdd cymdeithasol y DU yn effeithio ar iechyd meddwl a llesiant. Ers 2013, mae astudiaethau amrywiol wedi'u cwblhau yn y maes hwn, yn enwedig yn ymwneud â'r effeithiau ar iechyd meddwl sy'n deillio o sancsiynau budd-daliadau a thrwy'r prosesau asesu sy'n cael eu defnyddio i bennu cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau anabledd ac analluogrwydd. Hefyd, mae gwaith yn cael ei wneud mewn cysylltiad â'r Cytundeb Cydweithio i archwilio'r seilwaith angenrheidiol sydd ei angen i baratoi ar gyfer datganoli gwaith gweinyddu'r maes lles.

Bydd y tîm ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio â chydweithwyr polisi perthnasol i edrych ar yr angen am ymchwil ychwanegol, pennu cyfnod y gwaith ymchwil, a nodi ei gysylltiad â blaenoriaethau ac ymrwymadau eraill.

Goblygiadau Ariannol – Ddim yn hysbys

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y strategaeth iechyd meddwl newydd yn sicrhau y bydd pobl â salwch meddwl difrifol a pharhaus yn cael mynediad rheolaidd at archwiliadau iechyd corfforol, a pha gamau a fydd yn cael eu cymryd i leihau effaith ffactorau fel tlodi, anfantais a rhagdybio diagnostig ar y grŵp hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae'r contract craidd ar gyfer meddygon teulu fel rhan o wasanaethau unedig yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon teulu gofnodi gwybodaeth am bobl sydd â salwch meddwl difrifol a chadw cofnod o bwysedd gwaed uchel a chyflyrau / risgiau iechyd corfforol eraill.

Fel rhan o'r gwaith i gefnogi datblygiad y cynllun a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, rydym eisoes wedi comisiynu gwaith i lywio ein dull o wella iechyd corfforol unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i gynnal adolygiad systematig o'r dull gweithredu presennol ac arferion gorau i gefnogi'r iechyd corfforol gorau posibl mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r strategaeth bresennol, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn strategaeth draws-lywodraethol ac mae'n cael ei chefnogi gan Grŵp Uwch-swyddogion traws-lywodraethol. Mae'r Grŵp yn cynrychioli'r meysydd polisi allweddol sy'n gwarchod iechyd meddwl da, er enghraifft, Trechu Tlodi, a mynd i'r afael â Chyflogaeth, Tai ac Addysg. Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp hwn i lywio'r dull gweithredu traws-lywodraethol yn y cynllun olynol.

Hefyd, byddwn yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid ehangach i gryfhau'r dull presennol o Gynllunio Gofal a Thriniaeth sydd eisoes yn cynnwys ystyried canlyniadau mewn meysydd bywyd allweddol gan gynnwys cyllid, tai, gwaith a theulu.

Un o amcanion y strategaeth a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yw gwella diagnosis ac effeithiau salwch corfforol, a bydd y gwaith hwn yn cynnwys atal rhagdybio diagnostig.

Bydd y dull o ymdrin â phob un o elfennau'r argymhelliad hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y strategaeth sy'n olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar ddiwedd 2023.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol

Yn unol ag argymhelliad ein grŵp cynghori, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi map ffordd sy'n nodi camau clir ar lefel genedlaethol a lleol i wella iechyd meddwl ymhlith pobl niwrowahanol. Dylid ei gyhoeddi erbyn Gorffennaf 2023 a dylai gynnwys camau i symleiddio'r broses i oedolion a phlant gael asesiad/diagnosis ar gyfer cyflyrau niwrowahanol a gwneud y broses honno'n fwy hygyrch.

Ymateb: Derbyn

Cwblhawyd adolygiad gallu a galw o'r holl wasanaethau cyflyrau niwroddatblygiadol ym mis Mawrth 2022. Wrth ymateb mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol raglen wella niwrowahaniaeth a fydd yn cynnwys cyllid ychwanegol gwerth £12 miliwn. Mae'r rhaglen wedi dechrau, ac mae £1.4 miliwn cychwynnol wedi'i ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddiwallu'r angen brys. Mae gan y rhaglen dair ffrwd waith. Y ffrwd gyntaf yw ystyried cymorth a chefnogaeth gynnar, yr ail yw datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol cynaliadwy, a'r drydedd yw sicrhau bod blaenoriaethau trawsbynciol, gan gynnwys data a'r gweithlu, yn cael eu datblygu. Bydd cymorth i bobl niwrowahanol sydd â chyflyrau sy'n cydfodoli, gan gynnwys diwallu anghenion iechyd meddwl, yn cael ei ddatblygu fel maes blaenoriaeth oddi mewn i'r rhaglen.

Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â fframwaith NYTH ar gyfer llesiant plant a phobl ifanc, a bydd yn mabwysiadu agwedd system gyfan at ddatblygu gwasanaethau. Er mwyn goruchwyllo'r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Niwrowahaniaeth, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan unigolion sydd â phrofiad bywyd o niwrowahaniaeth.

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Cymru i drafod blaenoriaethau'r rhaglen a gofyn am farn rhanddeiliaid. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol a chafodd ei grynhai mewn adroddiad cryno dwyieithog².

Goblygiadau Ariannol – Mae £12 miliwn yn ychwanegol wedi ei ddarparu hyd at fis Mawrth 2025 i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cyflyrau niwroddatblygiadol.

² [Rhaglen gwella niwrowahaniaeth: digwyddiadau ymgysylltu Tachwedd 2022 | LLYW.CYMRU](#)

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd gwaith i ddatblygu cefnogaeth gynnar drawsbynciol i blant a phobl ifanc a allai fod yn niwrowahanol, a'u teuluoedd, cyn iddynt gael diagnosis ffurfiol, yn mynd rhagddo'n gyflym ac ar frys. Dylai hyn gynnwys nodi pa gamau penodol fydd yn cael eu cymryd a phryd, a manylion pryd a sut y bydd gwerthuso'n cael ei wneud i asesu a yw profiadau a chanlyniadau pobl yn gwella. Dylid ystyried defnyddio dulliau cymorth gan gymheiriaid, cyfeillion fideo a hyrwyddwyr niwrowahanol.

Ymateb: Derbyn

Fel uchod. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu Uned Gyflawni'r GIG i gynnal adolygiad o wasanaethau asesu niwrowahaniaeth presennol a gwneud argymhellion ar welliannau posibl. Hefyd, bydd yr Uned Gyflawni yn datblygu fframwaith sicrwydd i fesur effaith newidiadau mewn gwasanaethau a chymorth wrth iddynt gael eu datblygu.

Goblygiadau Ariannol – Fel uchod

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu amserlen glir ar gyfer adolygiad brys o'r ddarpariaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl fyddar ac ymrwymo i roi diweddariad i ni ar yr adolygiad, ac unrhyw gasgliadau neu ganfyddiadau sy'n dod i'r fei, erbyn Gorffennaf 2023. Dylai hefyd roi sicrwydd y bydd yr adolygiad yn ystyried y materion a godwyd gan yr All Wales Deaf Mental Health and Well-Being Group yn ei adroddiad, *Deaf People Wales: Hidden Inequality*, ac ystyried a oes angen sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol cenedlaethol ar gyfer pobl fyddar yng Nghymru.*

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth iechyd meddwl i bobl fyddar a thrwy wneud hynny yn cymryd i ystyriaeth y materion a godwyd yn yr adroddiad *Pobl Fyddar Cymru: Anghydraddoldeb Cudd*, er y bydd hyn yn rhan o waith a fydd yn ystyried colled synhwyraidd yn fwy cyffredinol. Un o nodau sylfaenol ein gwaith o ddatblygu'r strategaeth sy'n olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl fydd lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad a chanlyniadau ar gyfer **pob** grŵp sy'n wynebu rhwystr i dderbyn cymorth. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni safonau Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth,

ond hefyd iaith a nodweddion gwarchoddedig eraill. Y nod fydd dileu'r rhwystrau i gymorth ar gyfer pob carfan, a byddwn yn edrych ar y dystiolaeth ynghylch colled synhwyrdd yn ehangach er mwyn llywio'r cynllun arfaethedig.

Byddwn yn gwneud gwaith cwmpasu cynnar erbyn mis Gorffennaf 2023, ond gan y bydd hyn yn rhan o waith ein strategaeth olynol i Law yn Llaw at lechyd Meddwl, bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy gydol 2023, a bydd yn rhan o'n strategaeth iechyd meddwl y cynhelir ymgynghoriad ffurfiol yn ei chylch ar ddiwedd y flwyddyn galendr.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei adroddiad yn 2018, Siarad fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ymateb: Derbyn

Yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-2022, rydym yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod cymorth yn deg ac yn hygyrch, a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â safon Cymru gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl sydd â cholled synhwyrdd.

Fel rhan o'r gwaith parhaus mewn perthynas â threfniadau i olynu ein Strategaeth Law yn Llaw at lechyd Meddwl, byddwn yn ystyried pa gamau eraill sydd eu hangen i gryfhau mynediad at gymorth i'r rhai sydd â cholled golwg neu golled clyw, ac i'r rhai nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Mae adroddiad blynyddol Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) yn nodi mai'r iaith y gofynnwyd am wasanaeth cyfieithu ar y pryd ar ei chyfer yn fwyaf aml, ac y gofynnwyd am wasanaeth cyfieithu ar ei chyfer yn fwyaf aml ond un yn 2022 oedd Arabeg. Cafodd 99.1% o'r holl geisiadau (ar gyfer pob iaith, nid Arabeg yn unig) eu dyrannu ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adroddiad ymchwil yn ddiweddar i ba mor hawdd yw cael gafael ar wasanaethau cyfieithu ar gyfer ieithoedd tramor yng Nghymru a pha mor ddigonol yw'r gwasanaethau hynny, ac rydym yn gobeithio gallu cyhoeddi'r adroddiad hwn cyn hir.

Bydd yr adroddiad *Pobl Fyddar Cymru* yn hanfodol o ran llywio gwaith parhaus yn y maes hwn.

Ym mis Chwefror 2021, cwblhaodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) archwiliad o bolisiâu a darpariaeth iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ymrwymo i'w siarter BSL. Mae swyddogion y BDA a'r Gangen Cydraddoldeb wedi cydweithio ag arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru i nodi'r hyn rydym yn ei wneud ynglŷn â BSL.

Hefyd, rydym yn parhau i sicrhau bod adnoddau iechyd meddwl ar gael mewn sawl iaith er mwyn cynorthwyo mynediad at ofal iechyd. Yn fwy diweddar, rydym wedi cyfieithu adnoddau megis Pecyn Cymorth Sefydlogi'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl ar gyfer pobl sydd wedi wynebu digwyddiadau trawmatig.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo llinell gymorth iechyd meddwl CALL (ac mae wedi cyfieithu gwybodaeth am y llinell gymorth i dros 20 o ieithoedd). Mae CALL yn defnyddio Language Line hefyd - sy'n golygu bod unrhyw un sy'n ffonio'r llinell gymorth yn gallu cael cefnogaeth a chynghor yn eu dewis iaith.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa ddyletswyddau sydd ar fyrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. Wrth wneud hynny, dylai roi sicrwydd bod y dyletswyddau sydd yn eu lle yn ddigonol, ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar aelodau o'r teulu neu wirfoddolwyr cymunedol i ddarparu dehongliad neu gyfieithu ac eithrio mewn achosion brys neu argyfwng.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ym mis Chwefror 2021, cwblhaodd Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) archwiliad o bolisiâu a darpariaeth iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o ymrwymo i'w siarter BSL. Mae swyddogion y BDA a'r Gangen Cydraddoldeb wedi cydweithio ag arweinwyr Polisi Llywodraeth Cymru i nodi'r hyn rydym yn ei wneud ynglŷn â BSL. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth dehongli a chyfieithu BSL a'r heriau sy'n deillio o brinder y gweithwyr proffesiynol cofrestredig hyn yng Nghymru.

Cyflwynwyd canlyniadau cychwynnol Adroddiad Archwilio BSL i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2021. Roedd yr Adroddiad drafft yn crynhoi asesiad o bolisiâu a gwasanaethau Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys argymhellion i lywio cynllun gweithredu a chynnig ar gyfer ymgysylltu parhaus â chymunedau pobl fyddar. Mae swyddogion wedi adolygu cynnwys Adroddiad Archwilio'r BDA ac wedi cwblhau'r adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi gan y BDA yn fuan. Mae swyddogion wedi cyfarfod â'r BDA ac yn aros am gadarnhad o'r dyddiad cyhoeddi gan y BDA.

Rhagwelir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Bydd Datganiad Ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad yn croesawu'r adroddiad ei hun a'r argymhellion. Bydd cyfieithiad BSL o'r datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod bod angen dull croestoriadol o ymateb i argymhellion yr Archwiliad. Mae angen cynllun hirdymor ar gyfer newid ac ymrwymiad a ffocws parhaus er mwyn rhoi camau gweithredu Archwiliad y BDA ar waith. Mae modd bwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn yn y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, ac mae modd gwneud rhywfaint o'r gwaith nawr. Bydd asesiad yn cael ei gynnal i ddatblygu cynllun gwaith i fwrw ymlaen â meysydd y gellir eu datblygu y tu allan i gylch gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl.

Mae Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) yn darparu mynediad at amrywiaeth eang o gyfieithwyr ar y pryd cofrestredig sy'n gweithio mewn tua 120 o ieithoedd gan gynnwys BSL. Gall sefydliadau partner fanteisio ar wasanaethau ar gais GCC drwy eu cytundeb partner. Mae'r holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru bellach yn bartneriaid â GCC. Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd yw gwneud ceisiadau i GCC a rhoi gwybod i'r claf.

Mae'r 'Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwyl' yn pennu'r cyfeiriad i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl â cholled synhwyraidd yn cael eu diwallu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau gofal iechyd. Disgwylir i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth roi trefniadau gweithredu ar waith i gyflawni'r safonau ac i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn hawdd i'w defnyddio ac ar gael, gan gynnwys i'r gymuned fyddar, drwy'r cyfrwng cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolyn, megis BSL.

Yn 2023, bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd ledled Cymru i gynnal adolygiad o'r holl ddulliau adrodd ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys y dulliau ar gyfer grwpiau agored i niwed. Hefyd, byddant yn datblygu argymhellion ar gyfer gwella prosesau cydweithio a darparu mwy o sicrwydd bod dyletswyddau Cydraddoldeb ar waith ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae Canllawiau ar gyfer Byrddau Iechyd 2018 ar Iechyd a Llesiant Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer byrddau iechyd o ran darparu cymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Yn 2021, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y byrddau iechyd i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau wrth gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghyllwiau 2018 ar Iechyd a Llesiant ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn enwedig mewn perthynas â darparu mynediad at gyfieithwyr a sicrhau nad yw iaith yn rhwystr rhag cael mynediad at wasanaethau.

Goblygiadau Ariannol – Byddai unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r argymhellion i gefnogi dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rydym yn cymeradwyo ac yn ailadrodd argymhelliad 1 a wnaed gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn ei adroddiad ym mis Hydref 2022, Trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried creu a chynnal cyfeirlyfr o gyfieithwyr cydnabyddedig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn deall y rhwystrau sy'n wynebu cleifion wrth geisio cael mynediad at wasanaethau heb ddefnyddio cyfieithydd, sy'n eu gwneud yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn adroddiad ar argaeledd a digonolrwydd gwasanaethau cyfieithu ieithoedd tramor fel rhan o'n Prosiect Integreiddio Mudwyr Cymru. Byddwn yn edrych ar argymhellion a chanfyddiadau'r adroddiad ochr yn ochr â'r argymhelliad hwn a gwaith ein Fframwaith Integreiddio Mudwyr. Bydd gwaith yn y dyfodol yn ystyried sut y gellir dileu rhwystrau i fynediad, gan weithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Hefyd, byddwn yn archwilio dulliau newydd o weithio i sicrhau mynediad, y gellid eu cynnwys yn ein gwaith cyfathrebu ar gyfer Prosiect Integreiddio Mudwyr Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol.

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Erbyn Gorffennaf 2023 dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r deilliannau allweddol a mesurau ansoddol a meintiol ar gyfer effaith y fframwaith ystyriol o drawma i Gymru, a rhoi fframwaith gwerthuso cadarn ar waith. Os na all Llywodraeth Cymru ymrwymo yn ei hymateb i'n hadroddiad i gwblhau gwaith o fewn yr amserlen hon, dylai egluro pam nad yw hyn yn bosibl a rhoi gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r mesurau a'r fframwaith gwerthuso.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd y Fframwaith Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma newydd yn rhan annatod o ymdrechion Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn wlad sy'n ystyriol o drawma. Bydd y fframwaith yn helpu i lywio'r polisi presennol a'r polisi newydd, gan gynnwys y strategaeth iechyd meddwl newydd a'r Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod. Bydd hefyd yn cyfrannu at nodau ehangach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella canlyniadau bywyd unigolion a gwneud Cymru'n wlad fwy ffyniannus a chyfartal.

Cafodd y fframwaith ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid o nifer o wahanol sectorau, o dan arweiniad Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru. Chwaraeodd Llywodraeth Cymru rôl hanfodol drwy hwyluso a chefnogi'r gwaith hwn, a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ar y cam nesaf – sef rhoi'r fframwaith ar waith yn llwyddiannus.

Cynhaliwyd y cyfarfod rhanddeiliaid cyntaf ynghylch prosesau gweithredu a gwerthuso'r fframwaith ar 23 Ionawr 2023. Disgwylir y caiff cynllun gweithredu, gan gynnwys y cyflawniadau allweddol, mesurau canlyniadau a phrosesau gwerthuso ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer isafswm o £300,000, £350,000 a £400,000 ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25, yn y drefn hon, er mwyn helpu i gyflwyno Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi £1.2 miliwn y flwyddyn i Straen Trawmatig Cymru, sydd â'r nod o wella iechyd a llesiant pobl o bob oed yng Nghymru sy'n byw gydag anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD) neu anhwylder straen ôl-drawmatig cymhleth (CPTSD), neu sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflyrau hyn.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth briodol a chefnogol am ymlyniad ac iechyd y berthynas rhwng rhiant a phlentyn yn cael ei darparu i rieni beichiog a rhieni newydd, er enghraifft mewn llenyddiaeth a thrwy ddsbarthiadau cynenedigol. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae gwybodaeth i gefnogi rhianta sensitif ac ymatebol yn dechrau mewn dosbarthiadau cynenedigol ac yn parhau drwy'r beichiogrwydd ar gyfer mamau a'u partneriaid. Mae'r gefnogaeth a'r addysg hon yn parhau drwy amrywiaeth o ffyrdd, yn sesiynau wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig ac yn electronig, mewn ieithoedd gwahanol trwy gydol y blynyddoedd cynnar, ar ôl i fydwragedd drosglwyddo cyfrifoldeb i wasanaethau ymwelwyr iechyd. Mae gwaith y prosiect 1000 Diwrnod Cyntaf wedi'i grynhai mewn negeseuon allweddol sy'n nodi y dylai rhieni hyrwyddo rhianta ag ymlyniad a rhianta ymatebol, gan ganolbwyntio'n benodol ar lesiant emosiynol plentyn ac ymlyniad diogel drwy wybodaeth i rieni megis Naw Mis a Mwy. Byddwn yn ystyried pa gamau eraill y gallwn eu cymryd er mwyn datblygu gwaith ar y berthynas rhwng rhiant a baban drwy ddysgu a gynllunnir, gan gynnwys meysydd

dysgu posibl sy'n deillio o'r modelau cyflawni a'r dulliau sy'n cael eu treialu drwy brosiectau braenaru'r blynyddoedd cynnar, lle mae pwyslais penodol ar y berthynas rhwng rhiant a baban ac ymyriadau.

Rydym hefyd yn ystyried sut mae'r strategaeth olynol i Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn gallu cryfhau cefnogaeth ar gyfer gwaith ar y berthynas rhwng rhiant a baban yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Ddim yn hysbys eto

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau cymunedol i ddefnyddio canlyniadau ei hymarfer mapio gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol diweddar i gyd-gynhyrchu cyfeirlyfr ar-lein o wasanaethau cymunedol a digidol sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ledled Cymru. Dylai'r cyfeiriadur fod yn hygyrch i'r cyhoedd, a dylai gynnwys gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael a sut i'w gael, yn cynnwys a oes angen atgyfeiriad.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael ar wefan 111 ar gyfer cymorth cenedlaethol (GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y: Iechyd Meddwl a Lles³) a thrwy DEWIS ar gyfer cymorth lleol/cymunedol. Mae gan y bobl sy'n ateb galwadau i linell gymorth CALL fynediad at gyfeiriadur cynhwysfawr o wasanaethau lleol (yn ôl cod post) i gyfeirio pobl at gymorth lleol. Hefyd, rydym yn darparu gwybodaeth sydd wedi'i theilwra'n arbennig i garfanau penodol, er enghraifft y Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a gynhelir ar HWB. Yn lle datblygu cyfeiriadur ar-lein newydd, ein nod yw gwella'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a sicrhau bod pobl yn gwybod sut i gael gafael ar adnoddau.

Byddwn yn parhau i wneud hynny drwy'r ymgyrch Helpwch Ni i'ch Helpu Chi, a thrwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus eraill, er enghraifft pan fyddwn yn lansio 111 pwyswch 2 am gymorth iechyd meddwl brys yn genedlaethol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

³ [Iechyd Meddwl a Lles \(111.wales.nhs.uk\)](http://111.wales.nhs.uk)

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Er mwyn cyd-fynd â'r broses o gyhoeddi'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol a'i weithredu'n barhaus, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bresgripsiynu cymdeithasol a'r fframwaith newydd ymhlith gweithwyr ieuchyd, gwasanaethau a grwpiau a sefydliadau cymunedol y gellid presgripsiynu pobl iddynt, a'r cyhoedd.

Ymateb: Derbyn

Un thema allweddol yn ein hymgyngoriad diweddar ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol oedd y gydnabyddiaeth ei bod yn ymddangos bod dryswch sylweddol a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o beth yn union y mae presgripsiynu cymdeithasol yn gallu ei gynnig.

Yn ogystal, fe wnaeth yr ymgyngoriad gydnabod bod angen gwella ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael, a hygyrchedd y ddarpariaeth, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol yn gallu cysylltu pobl â chymorth yn y gymuned.

Mae dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion i'r ymgyngoriad yn cefnogi'r angen am ymgyrch i ddatblygu dealltwriaeth o waith presgripsiynu cymdeithasol, a'i fanteision, ac i godi ymwybyddiaeth o'r fframwaith cenedlaethol. Wrth i ni fwrw ymlaen â datblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol, bydd rhaglen waith i godi ymwybyddiaeth yn cael ei chyflwyno.

Goblygiadau Ariannol – Ddim yn hysbys eto

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai fframwaith presgripsiynu cymdeithasol Llywodraeth Cymru gynnwys mesurau lle gellir asesu effeithiau a chanlyniadau ieuchyd a chymdeithasol cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi data fel rhan o'r broses barhaus o werthuso'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol er mwyn ein galluogi ni a rhanddeiliaid i fonitro effaith presgripsiynu cymdeithasol a'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y fframwaith cenedlaethol yn dangos gwerth presgripsiynu cymdeithasol ac yn monitro ei effaith. I wneud hyn, mae angen cymysgedd o fesurau ansoddol a meintiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, y gymuned, a gwasanaethau iechyd. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â'r ffordd orau o gofnodi'r data hwn a gwerthuso effaith a chanlyniadau iechyd a chymdeithasol presgripsiynu cymdeithasol ar lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol.

Goblygiadau Ariannol – Ddim yn hysbys eto

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y bydd yn eu cymryd i ddatblygu strwythur mwy proffesiynol i'r gweithlu presgripsiynu cymdeithasol, gan gynnwys sut y bydd yn mynd i'r afael ag amrywiaeth mewn tâl, telerau ac amodau, ac yn gwella cynaliadwyedd cyllido ar gyfer rolau o'r fath. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Gwrthod

Mae ein strategaeth 'Cysylltu Cymunedau' eisoes yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith sgiliau a chymhwysedd ar gyfer gweithwyr presgripsiynu cymdeithasol a fydd yn rhan annatod o'n fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i arwain ar ddatblygu fframwaith sgiliau a chymwyseddau sy'n cysylltu tystiolaeth ag ymarfer. Bydd y fframwaith sgiliau a chymwyseddau yn helpu'r bobl hynny sy'n datblygu gwasanaethau i wella eu dealltwriaeth o rôl yr ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol. Mae AaGIC a'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, eisoes wedi datblygu fframwaith drafft. Cynhelir ymgynghoriad ar y fframwaith yn fuan.

Bydd y fframwaith sgiliau a chymhwysedd hwn yn amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i gyflawni'r rôl presgripsiynu cymdeithasol yn llwyddiannus, a bydd yn helpu i ddatblygu strwythur mwy proffesiynol ar gyfer y gweithlu presgripsiynu cymdeithasol.

Fodd bynnag, o ystyried cymhlethdod trefniadaeth y gweithlu presgripsiynu cymdeithasol, gyda llawer o weithwyr wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, mae'r broses o drafod tâl, telerau ac amodau penodol y tu allan i gylch gwaith Llywodraeth Cymru ac yn gyfrifoldeb sefydliadau sy'n cyflogi

pobl. Am y rheswm hwn, nid oes modd inni dderbyn yr argymhelliad hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut, gan weithio gydag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, y bydd yn monitro effaith y camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl sydd â'r nod o wella llesiant staff. Dylai ymrwymo hefyd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n nodi a yw'r camau gweithredu yn y cynllun yn cael yr effaith fwriadedig, ac os na, beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol. Dylai'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi dim hwyrach na Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn

Bydd cynnydd ar gyflawni'r camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl, ac effaith y camau hyn, yn cael eu monitro drwy fwrdd gweithredu wedi'i sefydlu gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n cynnwys pobl â phrofiad bywyd, Colegau Brenhinol, y sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyflawni a Goruchwylio Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a byrddau cyhoeddus AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar gyfer y cyhoedd i ddarparu gwybodaeth am gynnydd.

Goblygiadau Ariannol - Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, dylai gadarnhau pa rai o'r camau sydd yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl y dyrannwyd cyllid llawn iddynt, pa rai y dyrannwyd cyllid rhannol iddynt, a pha rai sydd heb gael cyllid wedi'i ddyrannu iddynt o gwbl. Dylai hefyd roi manylion pa gamau sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu sydd heb eu hariannu a fydd yn cael blaenoriaeth pe bai cyllid pellach ar gael.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi dweud y bydd cefnogi'r gwaith o roi Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl ar waith yn flaenoriaeth yn 2023-24. Rhwng y cyllid a ddarperir ar gyfer Cynllun Comisiynu a Hyfforddi Addysg GIG Cymru (2023-24) a chyllid ychwanegol a ddarperir o gyllideb y rhaglen iechyd meddwl, bydd y Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl yn cael ei ariannu'n llawn yn 2023-24.

Goblygiadau Ariannol - Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phobl niwrowahanol i gydgyhyrchu ymgyrchoedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu dealltwriaeth o niwroamrywiaeth mewn ysgolion ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dylai ffocws yr hyfforddiant fod ar ddeall bywydau pobl niwrowahanol, sut i'w cefnogi a'u helpu, a datblygu agweddau a diwylliant cadarnhaol, adeiladol a chymwynasgar, ac nid ar gyflyrau penodol yn unig. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ddatblygu adnoddau ar gyfer ysgolion ac ar draws sectorau eraill, gan weithio mewn partneriaeth â phobl niwrowahanol a rhieni a gofalwyr. Mae'r wefan autismwales.org/cy yn darparu manylion rhaglenni hyfforddi cynhwysfawr ac adnoddau codi ymwybyddiaeth mewn addysg ar gyfer cyflogwyr a gwasanaethau cymunedol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arolwg o'r gweithlu sydd i'w gynnal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o gynllun y gweithlu iechyd meddwl yn cael ei gynnal ar fyrder, a dim hwyrach na mis Gorffennaf 2023. Dylai Llywodraeth Cymru

weithio gyda grwpiau a chymunedau y nodwyd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu ar ôl dadansoddi'r data amrywiaeth a gasglwyd drwy'r arolwg, a chyda phobl niwrowahanol, i lunio a chyflwyno rhaglen fentora a chymorth i'w helpu i ymuno â'r gweithlu iechyd meddwl. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn

Bydd arolygon o'r gweithlu yn cael eu cynnal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol cyn mis Gorffennaf 2023. Mae cynhwysiant wedi'i nodi fel un o'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r cynllun, gyda'r nod o "greu diwylliant o wir gynhwysiant, uniondeb a thegwch ar draws y gweithlu Iechyd Meddwl". Mae AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleiafrifoedd Ethnig yn y lle cyntaf i ddatblygu dull sy'n ceisio cynyddu prosesau recriwtio a chadw ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu iechyd meddwl.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod ei gweision sifil yn cynnwys, ym mhob cyflwyniad a wneir i Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n gofyn am benderfyniad ar gynigion polisi, deddfwriaethol, gwariant neu drethu, asesiad o'r modd y bydd y camau a argymhellir yn cyfrannu at wella iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Gweinidogion Cymru yn gorfod gweithredu yn unol â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau datblygiad cynaliadwy, gan gyfrannu at y saith nod llesiant wrth wneud hynny. Yn y nodau hyn, mae 'Cymru Iachach' yn cael ei disgrifio fel "Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol". Wrth gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi gwreiddio'r Ddeddf yn y modd y mae'n datblygu polisi a chynghor i Weinidogion. Mae hyn yn rhan o ddull mwy integredig o asesu effaith polisi sydd eisoes yn cynnwys ystyried iechyd meddwl a llesiant drwy gynnwys ein harferion asesu'r effaith ar iechyd sefydledig.

Ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Rhan 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i restr o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) gynnal asesiad effaith ar iechyd (sy'n cynnwys ystyried iechyd meddwl a chorfforol) mewn amgylchiadau sydd i'w pennu yn y rheoliadau. Cafodd gwaith i ddatblygu'r rheoliadau ei atal i ddechrau er mwyn canolbwyntio adnoddau ar Ymadael â'r UE ac wedyn i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, ailgychwynnodd y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau yn 2022, ac mewn ymateb i lythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ymrwymodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyhoeddi ymgynghoriad ar y rheoliadau (yn unol â gofyniad Deddf 2017) ddiwedd y Gwanwyn/dechrau Haf 2023. O safbwynt datblygu'r Rheoliadau, byddwn yn ystyried canfyddiadau adroddiad y pwyllgor a'r argymhelliad hwn wrth baratoi cynigion polisi ar gyfer yr ymgynghoriad. O safbwynt gweithredu'r Rheoliadau oddi mewn i Lywodraeth Cymru, byddwn yn diweddarau ein dull asesu effaith yn unol â hynny unwaith y bydd y Rheoliadau wedi'u cytuno.

Yn ogystal ag ystyried y mecanweithiau sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried effaith penderfyniad ar iechyd, mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth a gallu'r rhai sy'n llunio polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau oddi mewn i Lywodraeth Cymru fel bod ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r mathau o ymddygiad i gynllunio a chyflwyno polisi yn effeithiol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau blynyddol i ni am gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid darparu'r diweddariad blynyddol cyntaf ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ystyried y mater hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddiweddarau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn fel y bo'n briodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gomisiynu a chyhoeddi gwerthusiadau interim a therfynol annibynnol o'i strategaeth iechyd meddwl newydd. Dylai'r gwerthusiadau interim gynnwys asesiad o effaith y strategaeth hyd yma ar iechyd meddwl a llesiant poblogaeth Cymru, y canlyniadau y mae wedi'u cyflawni, ac unrhyw bwyntiau dysgu neu argymhellion ar gyfer newid. Ochr yn ochr â phob adroddiad gwerthuso interim, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion pa gamau y bydd yn eu cymryd mewn ymateb i unrhyw bwyntiau dysgu neu argymhellion ar gyfer newid.

Ymateb: Derbyn

Bydd cynlluniau ar gyfer gwerthuso parhaus yn rhan hanfodol o'r Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru. Bydd angen ystyried pwyntiau dysgu a / neu argymhellion ar gyfer newid yn benodol fel rhan o unrhyw werthusiadau arfaethedig, ochr yn ochr â ffocws ar gynnydd tuag at gyflawni canlyniadau ac amcanion arfaethedig y strategaeth.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau cost yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Meddwl olynol.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd y data i'w gasglu a'i gyhoeddi fel rhan o set ddata graidd iechyd meddwl yn ein galluogi ni a rhanddeiliaid i weld ac olrhain cynnydd dros amser mewn anghydraddoldebau iechyd meddwl yn ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chanlyniadau i wahanol grwpiau a chymunedau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ba ddata fydd yn cael ei gynnwys, pa mor aml y bydd data'n cael ei gyhoeddi, pa ddadansoddiad fydd yn cael ei wneud, a chadarnhad y bydd y data'n cael ei ddadgyfuno ar sail nodweddion amrywiaeth.

Ymateb: Derbyn

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yw sicrhau bod data iechyd ac iechyd meddwl yn ymwneud â hil, ethnigrwydd ac anfantais croestoriadol yn cael ei gasglu mewn ffordd weithredol, ei ddeall a'i ddefnyddio i sbarduno a llywio gwelliannau parhaus mewn gwasanaethau a sicrhau bod canlyniadau teg yn sylfaen i ddarparu gwasanaethau.

Rydym eisoes yn cyhoeddi ystod o ddata ar weithgarwch, ac mae rhywfaint ohono yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd, fel rhan o Raglen Feincnodi'r GIG. Mae'r wybodaeth feincnodi ddiweddaraf ar gyfer Cymru ar gael ar-lein (gig.cymru).⁴

O safbwynt y set ddata graidd, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth lefel cleifion (er enghraifft, rhywedd ac ethnigrwydd). Yn ddiweddar, rydym wedi cryfhau'r trefniadau llywodraethu i ddatblygu'r gwaith hwn, ac ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar weithio gyda byrddau iechyd i gytuno ar y data gweithgarwch craidd a fydd yn cael ei adrodd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r data hwn a byddwn yn diweddarau'r Pwyllgor maes o law ar y data sydd i'w gyhoeddi a pha mor aml y bydd yn cael ei gyhoeddi.

Mae'r mesurau gweithgarwch yn un o bedair elfen a fydd yn ffurfio'r set ddata graidd. Y mesurau eraill yw:

- *Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Glaf (PROMS).*
- *Mesurau Profiadau a Adroddir gan Glaf (PREMS).*
- *Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Glinigydd (CROMS).*

Rydym wedi sefydlu Grŵp Goruchwyllo ac wedi diweddarau'r Bwrdd drwy ychwanegu grŵp technegol. Mae gan y bwrdd ystod o aelodau rhanddeiliaid, ac yn ogystal â darparu prif brosesau goruchwyllo a llywodraethu'r rhaglen hon, bydd y "Bwrdd" yn ystyried canfyddiadau allweddol yr Ymchwil Academiaidd, gan edrych ar yr hyn sy'n bwysig i bobl yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol - Mae'r goblygiadau ariannol cyfredol yn cael eu hysgwyddo drwy gyllidebau sy'n bodoli'n barod.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Ar ôl cwblhau'r ymchwil y comisiynwyd Prifysgol De Cymru i'w chynnal ar fesur canlyniadau clinigol a chymdeithasol, dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen ar gyfer datblygu a gweithredu mesurau llesiant i lywio'r gwaith o fonitro a gwerthuso effaith y strategaeth iechyd meddwl newydd ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn

Mae trefniadau'r Bwrdd Canlyniadau a Mesurau Iechyd Meddwl y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb i argymhelliad 24 yn ystyried canlyniad yr ymchwil fel rhan o'r gwaith o

⁴ [Digwyddiadau - Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol \(gig.cymru\)](http://Digwyddiadau - Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (gig.cymru))

ddatblygu'r mesurau canlyniadau yn y set ddata graidd. Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlenni, yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi data ar y sgôr llesiant meddwl cymedr i bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru gan ddefnyddio Cyfradd Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS) fel rhan o'r broses o adroddiad ar Lesiant Cymru:

Dangosyddion Cenedlaethol⁵.

Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym wedi ymgynghori ar Dangosydd 29, 'Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl', ac wedi gosod cerrig milltir ar ei gyfer. Mae'r mesur hwn yn cael ei gasglu a'i adrodd fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru i Oedolion, a byddwn yn defnyddio'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ar gyfer plant a phobl ifanc. Dyma un o'r dangosyddion a fydd yn sbarduno gwaith yn y dyfodol i hyrwyddo llesiant meddwl da ledled y boblogaeth, gan ganolbwyntio ar leihau'r bwloch rhwng ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig.

Fel rhan o'r trefniadau i ddatblygu'r strategaeth a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, mae gennym adnodd penodol gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mesurau allweddol i benderfynu cynnydd yn erbyn yr amcanion strategol y cytunwyd arnynt. Bydd y mesurau arfaethedig yn cael eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori y disgwylir iddi fod ar gael erbyn diwedd 2023.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r comisiynwyr heddlu a throsedd a'r heddluoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd i wella mynediad ar gyfer swyddogion heddlu at hyfforddiant parhaus mewn ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, atal hunanladdiad, ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth, ymwybyddiaeth o anabledau dysgu, a chymhwysedd diwylliannol. Yn unol ag argymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

Ymateb: Derbyn

Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, ac o'r herwydd mae hyfforddi staff yr heddlu yn gyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio ein cysylltiadau

⁵ [Llesiant Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol Cymru \(llyw.cymru\)](#)

partneriaeth i gefnogi canlyniadau cyfiawnder troseddol effeithiol, yn enwedig pan fo plismona yn rhyngwynebu â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Byddwn yn trefnu trafodaeth â Phlismona yng Nghymru ar:

- Yr hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd yn ymwneud â'r pynciau hyn a sut mae'n cael ei ddefnyddio.
- Sut y gellir cynyddu hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant presennol.
- Os oes cyfleoedd posibl ar gael ar gyfer cysylltiadau newydd neu waith pellach.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gydag Uned Cyswllt yr Heddlu ac arweinwyr polisi perthnasol Llywodraeth Cymru.

O safbwynt niwroamrywiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n darparu cyngor arbenigol a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth. Mae'r tîm wedi gweithio gyda heddlu De Cymru a heddlu Gwent ar faterion niwroamrywiol. Hefyd, rydym yn cyflwyno rhaglen wella niwrowahaniaeth sy'n cynnwys ystyried anghenion hyfforddi'r gweithlu. Mae cynrychiolydd cyfiawnder troseddol yn aelod o Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Niwrowahaniaeth, ac mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r meysydd sydd heb eu datganoli sy'n rhan o'u strategaeth niwroamrywiaeth.

Yn ogystal, fel rhan o Strategaeth Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru, mae'r tîm wedi helpu i ddatblygu'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu a dechrau ei gyflwyno i weithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r tîm yn gweithio gyda Gwelliant Cymru i edrych ar sut mae modd ymestyn y Fframwaith i sefydliadau sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys yr heddlu o bosibl.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol.

Argymhelliad 27

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Bil Iechyd Meddwl drafft. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu a yw'n cefnogi bwriad Llywodraeth y DU i ddeddfu ym maes iechyd meddwl, sy'n faes datganoledig, manylion y dadansoddiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn llywio ei barn ar y mater hwn, a gwybodaeth am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y gwahanol gyd-destunau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r deddfwriaeth a chynllunio ar gyfer ei gweithredu.

Ymateb: Derbyn

Yn unol â'r ymrwymiad a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig. Pan gafodd ei sefydlu, diben y grŵp gorchwyl a gorffen oedd cytuno ar gamau diriaethol sy'n gallu gwella cymorth ar gyfer iechyd meddwl a mynediad at wasanaethau ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig, ar gyfer pob grŵp oedran. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am gyfnod o 12 mis yn wreiddiol, ond bydd yn parhau am ddwy flynedd arall - gan chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lywio datblygiad y Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru. Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod deddfwriaeth iechyd meddwl newydd i Gymru yn adlewyrchu anghenion cymunedau ethnig lleiafrifol. Hefyd, bydd yn un o'r rhanddeiliaid allweddol mewn trafodaethau a gwaith parhaus i gyflwyno'r diwygiadau arfaethedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru, a datblygu'r Cod Ymarfer ategol i Gymru.

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i'r Ddeddf Iechyd Meddwl i geisio cyflwyno argymhellion Adolygiad Wessely, fe aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i gynnal cyfres o drafodaethau gyda rhanddeiliaid a phartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Lleiafrifoedd Ethnig, i benderfynu pa un o'r cynigion fyddai'n fuddiol i Gymru. Ar ôl y trafodaethau hynny, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Llywodraeth y DU i amlinellu ein safbwynt ynglŷn â pha un o'r cynigion yr hoffem ei ymestyn i Gymru a'i gynnwys mewn Bil Iechyd Meddwl drafft. Yn unol â Chonfensiwn Sewel, mae'n debygol y bydd angen pasio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd o hyd unwaith y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno yn unol ag adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheolau Sefydlog y Senedd. Bydd argymhelliad terfynol Llywodraeth Cymru i'r Senedd ynglŷn ag a ddylid pasio cynnig o'r fath yn dibynnu ar a ydym yn fodlon â'r darpariaethau terfynol yn y Bil.

Mae'r deddfwriaeth ddrafft wedi bod yn destun craffu cyn deddfu yn Senedd y DU, a chyhoeddodd y pwyllgor craffu perthnasol ei adroddiad ar 19 Ionawr 2023. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw yn debygol o arwain at newidiadau i'r Bil arfaethedig o'i gymharu â'r drafft cyntaf. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i ystyried i ba raddau y dylid cynnwys Cymru mewn unrhyw ddarpariaethau newydd neu wahanol iawn sy'n dod i'r amlwg wrth i'r Bil gael ei ddatblygu yn sgil adroddiad y pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol – Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol.

Lynne Neagle AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Eluned Morgan

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

26 Ionawr 2023

Annwyl Eluned

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): cais am wybodaeth ynghylch goblygiadau posibl i iechyd a gofal cymdeithasol


Ar 11 Ionawr 2022 bu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn trafod **gohebiaeth** gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Bil uchod, gan gynnwys gohebiaeth a gafodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn arwain gwaith craffu'r Senedd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil a goblygiadau ehangach y Bil, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth am effaith bosibl y ddeddfwriaeth ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae dangosfwrdd Cyfraith yr UE a Ddargedwir Llywodraeth y DU yn dangos 137 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, gan gwmpasu meysydd pwysig fel labelu bwyd a diod; dyfeisiau meddygol; rheoleiddio meddyginiaethau; diogelwch gwaed; treialon clinigol; cynhyrchion tybaco; fformiwla i fabanod a fformiwla ddilynol; gofynion hylendid ar gyfer busnesau bwyd; honiadau o ran maeth bwyd ac iechyd; amddiffyniadau rhag ymbelydredd ïoneiddio; sylweddau o darddiad dynol i'w defnyddio gan bobl; ac iechyd a diogelwch yn y gwaith.

Mae darnau eraill o gyfraith yr UE a ddargedwir hefyd yn perthyn yn agos, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd (er enghraifft rheoleiddio cemegau, ac ansawdd aer a dŵr); bwyd ac amaethyddiaeth (er enghraifft rheoleiddio bwyd, a gwybodaeth am alergenau bwyd; a chyflogaeth (er enghraifft hawliau gweithwyr, iechyd a diogelwch yn y gwaith a chydabod cymwysterau proffesiynol).

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn **erbyn 23 Chwefror 2023**.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal flourish underneath.

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): cais am wybodaeth ynghylch goblygiadau posibl i iechyd a gofal cymdeithasol

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn erbyn 23 Chwefror 2023.

Materion trosfwaol a nodi cyfraith yr UE a ddargedwir

1. Beth yw eich barn ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
2. Rydym yn nodi bod dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir Llywodraeth y DU ond yn cynnwys cyfreithiau a wnaed gan Weinidogion y DU. A allech roi rhestr inni o gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Penderfyniadau ar gyfraith yr UE a ddargedwir

3. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 5 Rhagfyr 2022¹ fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu proses frysbennu i lywio ei phenderfyniadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir. A allech nodi pa ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir, neu ba feysydd polisi sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft iechyd y cyhoedd neu labelu bwyd) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu blaenoriaethu i'w hystyried yn y broses brysbennu.
4. A allech gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau yn y Bil i ddiogelu'r safonau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol sydd o fewn cymhwysedd.
5. Sut y byddech yn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid fel Conffederasiwn GIG Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd y gallai safonau ac amddiffyniadau pwysig sy'n ymwneud â materion fel iechyd y cyhoedd a labelu bwyd gael eu colli yng Nghymru os na chaiff rheoliadau eu harbed neu eu diwygio.
6. A allech nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y goblygiadau hirdymor i iechyd a lles y boblogaeth wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

7. A allwch amlinellu sut y bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhan o'r prosesau brysbennu cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwneud penderfyniadau

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad [Cofnod y Trafodion](#), 5 Rhagfyr 2022



ynghylch a ddylai darnau o gyfraith gael eu harbed, eu diwygio neu eu dileu yn unol â'r terfyn amser o 31 Rhagfyr 2023 a nodir yn y Bil.

8. A wnewch chi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried eu barn drwy gydol y broses hon.

Trefniadau gweithio rhynglywodraethol

9. A allech ddarparu gwybodaeth am unrhyw drafodaethau yr ydych chi neu'ch Dirprwy Weinidogion wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar iechyd a gofal cymdeithasol, neu ynghylch sut y byddai unrhyw newidiadau i gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir yn cael eu cydgysylltu pe bai'r Bil yn cael ei basio.
10. Beth yw eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â threfniadau eraill ar ôl Brexit sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol, megis fframweithiau cyffredin, Deddf y Farchnad Fewnol 2020 neu gytundebau masnach.

Yr effaith ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

11. A allech egluro a fydd unrhyw elfennau o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft y Bil Aer Glân) yn cael eu heffeithio gan y Bil, ac os felly, sut.

Llywodraeth Cymru
Welsh GovernmentRussell George AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal CymdeithasolSeneddlechyd@senedd.cymru

27 Chwefror 2023

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr mewn perthynas â goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rwyf am ateb eich cwestiynau yn y drefn y cawsant eu gofyn.

Materion trosfwaol a nodi cyfraith yr UE a ddargedwir

Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rwyf o'r un farn â Llywodraeth Cymru yn gyffredinol ac yn gwrthwynebu'r dull sy'n cael ei ddilyn gan y Bil. Yn gyffredinol, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ac yn cynnig amddiffyniadau hanfodol ar draws gwahanol agweddau ar fywyd yng Nghymru, gan gynnwys hawliau gweithwyr, mesurau diogelu'r amgylchedd a mesurau diogelu iechyd y cyhoedd. Ar adeg pan ddylai'r llywodraethau yn y DU fod yn canolbwyntio ar faterion pwysicach fel yr argyfwng costau byw, mae'r Bil yn mynnu cryn dipyn o sylw.

Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn ffurfio rhan bwysig o'r fframwaith cyfreithiol sy'n sylfaen i amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'm portffolio i. Mae'r pryderon cyffredinol am oblygiadau posibl y Bil yn berthnasol felly i gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Mater sy'n destun pryder neilltuol yw'r terfyn amser a osodir gan y Bil ar gyfer adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir cyn 31 Rhagfyr 2023, sef y dyddiad machludo. O ganlyniad, pennir amserlen ddiangen a mympwyol ar gyfer adolygu corff cyfan o gyfraith, sy'n peri risg y bydd amddiffyniadau cyfreithiol pwysig yn cael eu tynnu o'r llyfr statud ar y dyddiad hwn, a hynny heb graffu'n briodol.

O safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn darparu amddiffyniadau pwysig sydd wedi datblygu dros gyfnod sylweddol o amser. Wrth ymateb i'r Bil dros y flwyddyn sydd i ddod, sicrhau bod safonau ac amddiffyniadau allweddol yn cael eu cynnal i'r graddau y bo hynny yn bosibl fydd fy mlaenoriaeth i.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cwestiwn 2: Rydym yn nodi bod dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir Llywodraeth y DU ond yn cynnwys cyfreithiau a wnaed gan Weinidogion y DU. A allech roi rhestr inni o gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r dangosfwrdd a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gysylltiedig â nifer o feysydd polisi iechyd, gan gynnwys rheoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a sylweddau sy'n tarddu o fodau dynol, yn ogystal â chrynodiad uchel sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd. Mae'n bwysig cofio hefyd mai proses ailadroddol a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer nodi cyfraith yr UE a ddargedwir. Adolygir y dangosfwrdd yn barhaus felly. Mae'r rhestr bresennol yn cynnwys enghreifftiau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i chadw yn ôl ac sydd wedi'i datganoli. Mae fy swyddogion i'n parhau i weithio gyda'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ar y dadansoddiad hwn ac i bennu'r union fanylion i ganfod a ydy offerynnau yn berthnasol i Gymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli.

Yn ogystal â darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel adran arweiniol Llywodraeth y DU, yn gyfrifol amdanynt, mae'n bwysig cofio y bydd cyfraith o'r fath mewn meysydd eraill, fel rheoleiddio amgylcheddol, hefyd yn berthnasol i'm portffolio i. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â datblygiadau allweddol o rannau eraill o'r Llywodraeth pan fydd buddiant polisi iechyd a gofal cymdeithasol amlwg.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith sylweddol hefyd i sicrhau ein bod yn nodi'r holl ddarnau perthnasol o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'u gwneud yng Nghymru (ac nad ydynt felly yn cael eu cofnodi ar ddangosfwrdd Llywodraeth y DU). Offerynnau statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru i drosi Cyfarwyddebau gan yr UE yn gyfraith Cymru fydd y rhain yn bennaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi cyfraith yr UE a ddargedwir o'r fath, gan dynnu ar amrywiaeth o ffynonellau ac mae'n cynnwys cymorth gan yr Archifau Gwladol. Nid oes rhestr lawn ar gael eto ond byddaf yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth am hyn maes o law.

Penderfyniadau ar gyfraith yr UE a ddargedwir

Cwestiwn 3: Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 5 Rhagfyr 2022 fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu proses frysbennu i lywio ei phenderfyniadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir. A allech nodi pa ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir, neu ba feysydd polisi sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft iechyd y cyhoedd neu labelu bwyd) y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu blaenoriaethu i'w hystyried yn y broses brysbennu.

Ar hyn o bryd, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn darparu amddiffyniadau pwysig ar draws amrediad o faterion rheoleiddio. Er bod yr amserlen fypwyol a orfodir gan Fil Llywodraeth y DU yn golygu y bydd angen blaenoriaethu, rwyf hefyd yn dra ymwybodol bod pob darn penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn ei rinwedd ei hun. Wrth fynd ati i ymdrin â'r mater hwn, lleihau'r risg y gallai amddiffyniadau pwysig gael eu colli fydd fy mwriad, a byddwn hefyd yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau na fydd safonau yn cael eu lleihau.

Hyd nes y bydd y gwaith y cyfeirir ato o dan Gwestiwn 2 uchod wedi'i gwblhau, mae'n rhy gynnar inni glustnodi un mater polisi penodol i'w ystyried fel blaenoriaeth. Byddwn mewn sefyllfa i flaenoriaethu yn effeithiol pan fydd gennym ddarlun mwy cyflawn gyda'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys pa ddarnau penodol o gyfraith yr UE a ddargedwir yn

union y bydd Llywodraeth y DU yn bwriadu cael gwared arnynt neu eu diwygio. Fodd bynnag, ar y cam cynnar hwn, gallaf gadarnhau mai darnau o gyfraith yr UE a ddargedwir y nodwyd bod y cysylltiad agosaf rhyngddynt â mesurau diogelu iechyd y cyhoedd fydd flaenaf yn fy meddwl i wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo dros y misoedd sydd i ddod.

Cwestiwn 4: A allech gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau yn y Bil i ddiogelu'r safonau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol sydd o fewn cymhwysedd.

Wrth ystyried cyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, sicrhau ein bod yn lleihau'r risg y bydd amddiffyniadau cyfreithiol pwysig yn cael eu tynnu oddi ar y llyfr statud ddiwedd y flwyddyn hon fydd fy mlaenoriaeth gyffredinol. Fy safbwynt cychwynnol yw y dylai'r mwyafrif o gyfraith yr UE a ddargedwir gael ei chadw / ei chymhathu, i'r graddau y bo hynny yn bosibl, ac y dylid gallu darparu tystiolaeth glir i gyfiawnhau unrhyw gynlluniau ar gyfer newid. Nid wyf yn bwriadu lleihau safonau mewn meysydd pwysig lle y mae cyfrifoldeb rheoleiddio wedi'i ddatganoli. Cadw'r safonau y byddwn i'n dueddol o'i wneud, ond mae angen ystyried y mecanwaith ar gyfer sut yn union y byddai cyflawni hynny.

Er gwaetha'r safbwynt cychwynnol clir hwn, wrth ystyried darnau unigol o gyfraith yr UE a ddargedwir, mae'n bwysig nodi hefyd nad yw Cymru yn gweithredu mewn gwagle o safbwynt rheoleiddiol. Felly, bydd yn bwysig ystyried y dulliau sy'n cael eu cymryd mewn rhannau eraill o'r DU. Os oes newidiadau i'r status quo yn cael eu hystyried y tu allan i Gymru, bydd yn bwysig deall cymaint â phosibl am oblygiadau naill ai cyd-fynd â'r safbwyntiau sy'n cael eu cymryd mewn mannau eraill, neu ymwahanu oddi wrthynt. Mae'r cyfyngiadau amser a osodir gan y Bil yn cyfyngu ar ein gallu i gyflawni hyn, ond mae'n dal i fod yn ystyriaeth bwysig er mwyn sicrhau bod fframweithiau cyfreithiol yn parhau yn addas i'r diben a'u bod yn gallu gweithredu'n effeithiol yn y dyfodol.

Cwestiwn 5: Sut y byddech yn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid fel Confederasiwn GIG Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd y gallai safonau ac amddiffyniadau pwysig sy'n ymwneud â materion fel iechyd y cyhoedd a labelu bwyd gael eu colli yng Nghymru os na chaiff rheoliadau eu harbed neu eu diwygio.

Ar y cyfan, rwy'n cydnabod ac yn rhannu'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid allweddol. Mae'r risg y gellid colli amddiffyniadau pwysig, naill ai'n anfwriadol neu fel rhan o agenda 'ddad-reoleiddio' ehangach Llywodraeth y DU, yn rhan bwysig o'r sail resymegol ar gyfer gwrthwynebiad chwyrn Llywodraeth Cymru i'r Bil.

Ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar liniaru'r mathau o risgiau a godwyd gan randdeiliaid. Bydd ein bwriad i gadw / cymhathu cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i datganoli, fel yr amlinellir yn gynharach yn yr ymateb hwn, yn elfen allweddol o hyn. O ran cyfraith yr UE a ddargedwir nad yw'n glir ei bod o fewn cymhwysedd datganoledig, cynnal cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n berthnasol i Gymru yw ein dymuniad ni oni bai bod rhesymau da iawn dros beidio â gwneud hynny, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r safbwynt hwnnw wrth inni ymgysylltu â Llywodraeth y DU.

Wrth ystyried sut i leihau'r risgiau i'r graddau y bo hynny yn bosibl, byddwn yn awyddus i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft i sicrhau bod holl gyfraith Cymru sy'n ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd o fewn cwrmpas y Bil yn cael ei nodi a'i hystyried. Gan fod swm sylweddol o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dod o fewn ei meysydd cyfrifoldeb, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith hwn, ac mae swyddogion yr Asiantaeth a

Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos ar ddatblygu rhaglen waith benodol yn y maes polisi hwn.

Cwestiwn 6: A allech nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y goblygiadau hirdymor i iechyd a lles y boblogaeth wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir.

Er fy mod yn credu bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithio'n effeithiol yn gyffredinol, rwy'n derbyn y gall fod rhai achosion pan fydd yn briodol gwneud newidiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, wrth ystyried unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau posibl, mae'n bwysig yn gyntaf inni gael dealltwriaeth lawn o'r goblygiadau, yn y tymor byr a'r tymor hir. Nid yw'r amserlenni a osodir gan Fil Llywodraeth y DU fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd yn ddigonol i ganiatáu i'r gwaith manwl hwn gael ei wneud. Felly, yn fy marn i, mae newidiadau yn cael eu gwthio drwodd yn gyflym gan beri'r risg y ceir canlyniadau anfwriadol.

Mae'r dull y byddwn i'n ei ddewis, o gynnal cyfraith yr UE a ddargedwir i'r graddau y bo hynny yn bosibl i ddechrau yn ceisio lliniaru'r risg hon gan gynnig hyblygrwydd ar yr un pryd i ystyried meysydd i'w diwygio o bosibl yn y dyfodol mewn ffordd fwy cyfrifol. Nid yw ystyried diwygiadau rheoleiddiol yn rhywbeth y dylid ei gyflawni yn unol ag amserlen fymrwyl. Yn hytrach, dylid mynd ati mewn ffordd wedi'i rheoli ac yn unol ag amserlen sy'n golygu bod modd dadansoddi'r goblygiadau posibl yn llawn, gan ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid yn effeithir arnynt.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cwestiwn 7: A allwch amlinellu sut y bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn rhan o'r prosesau brysbennu cyfraith yr UE a ddargedwir, a gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai darnau o gyfraith gael eu harbed, eu diwygio neu eu dileu yn unol â'r terfyn amser o 31 Rhagfyr 2023 a nodir yn y Bil.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, fy mlaenoriaeth wrth ymateb i Fil Llywodraeth y DU fydd cynnal cyfraith yr UE a ddargedwir sydd wedi'i datganoli i'r graddau y bo hynny yn bosibl, er mwyn lleihau'r risg y caiff amddiffyniadau pwysig eu colli o'r llyfr statud ddiweddedd y flwyddyn hon. Bydd hwn yn ymateb ymarferol sydd, i bob pwrpas, yn golygu cynnal cymaint o'r status quo ag y gallwn, ond bydd hefyd yn cynnig inni yr hyblygrwydd i ystyried diwygio dros gyfnod hwy o amser yn y dyfodol.

Mae'r amserlen a orfodir gan Fil Llywodraeth y DU yn debygol o gyfyngu ar gyfleoedd posibl i ymgysylltu mewn modd rhagweithiol, a thrwy geisio cynnal y status quo i'r graddau y bo hynny yn bosibl byddwn yn canolbwyntio ar liniaru'r hyn yr ydym yn ei ystyried yw'r risg fwyaf yn y tymor byr. Byddwn wrth reswm yn ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru cymaint â phosibl yn yr amser fydd ar gael. Pan fyddwn yn ystyried blaenoriaethau ar gyfer newid yn y dyfodol, gwneud hyn yn unol ag amserlen fwy realistig, sy'n golygu y bydd modd inni gynnwys y sector yn llawer llawnach, fyddai ein bwriad.

Cwestiwn 8: A wnewch chi ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried eu barn drwy gydol y broses hon.

Mae fy null arfaethedig o gynnal cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gymwys yng Nghymru i'r graddau y bo hynny yn bosibl yn ceisio cynnal y status quo cymaint ag y gallwn, yn y tymor byr o leiaf. Mae hyn yn lliniaru'r risg fwyaf yn y tymor byr y gellid colli amddiffyniadau pwysig o'r llyfr statud ddiweddedd y flwyddyn hon.

Mae'n anochel y bydd yr amserlenni a osodir gan Fil Llywodraeth y DU yn cyfyngu ar y cyfleoedd posibl i ymgysylltu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n hapus iawn i ymrwymo i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan ddibynnu ar yr amser fydd ar gael inni allu gwneud hynny. Pan fydd newidiadau neu ddiwygiadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried dros gyfnod hwy o amser, gofynnir am farn rhanddeiliaid yn llawnach fel rhan o brosesau datblygu polisi cyffredinol.

Trefniadau gweithio rhynglywodraethol

Cwestiwn 9: A allech ddarparu gwybodaeth am unrhyw drafodaethau yr ydych chi neu'ch Dirprwy Weinidogion wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar iechyd a gofal cymdeithasol, neu ynghylch sut y byddai unrhyw newidiadau i gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir yn cael eu cydgysylltu pe bai'r Bil yn cael ei basio.

Ar wahân i iechyd, mae trafodaethau yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y pryderon cyffredinol ynghylch y Bil ar ei ffurf bresennol. Rwy'n disgwyl y bydd y trafodaethau hyn yn ymdrin â materion fel mecanweithiau cydgysylltu a chydysynio wrth i ddull arfaethedig Llywodraeth y DU ddod yn gliriach.

Mae'r trafodaethau a gafwyd hyd yma gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU wedi'u cynnal ar lefel swyddogion, ac maent wedi cynnwys trafodaeth ynghylch nodi darnau perthnasol o gyfraith yr UE a ddargedwir ac ystyried y cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau sydd wedi'u cadw yn ôl a'r rhai hynny sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn disgwyl y byddai angen cynnal trafodaethau ar lefel Weinidogol hefyd ar adegau penodol yn ystod y broses.

Gallaf hefyd gadarnhau mai'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru (sydd â chyfrifoldeb dros nifer sylweddol o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir).

Cwestiwn 10: Beth yw eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â threfniadau eraill ar ôl Brexit sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol, megis fframweithiau cyffredin, Deddf y Farchnad Fewnol 2020 neu gytundebau masnach.

Mae amrywiaeth o ryngddibyniaethau posibl rhwng cyfraith yr UE a ddargedwir a threfniadau eraill. Mae hyn eto yn arwydd o'r cymhlethdod ynghylch y materion hyn ac mae'n pwysleisio'r risg y gallai'r Bil yn anfwriadol danseilio agweddau eraill ar y dirwedd ddeddfwriaethol, polisi a rheoleiddiol ehangach. Mae'r cymhlethdodau hyn yn atgyfnerthu fy marn gyffredinol mai dim ond dros amserlen hwy nag y mae Bil y DU ar ei ffurf bresennol yn ei darparu y dylid ystyried gwneud newidiadau sylweddol i gyfraith yr UE a ddargedwir.

Mae nifer o'r meysydd polisi iechyd y mae cyfraith yr UE a ddargedwir ar waith mewn perthynas â hwy ar hyn o bryd yn dod o dan fframweithiau cyffredin y DU a gafodd eu datblygu gan y pedair gwlad wedi i'r DU ymadael â'r UE. Mae enghreifftiau nodedig yn ymdrin ag agweddau ar bolisi maetheg, diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, a sylweddau sy'n tarddu o fodau dynol. Rwy'n gwbl ymroddedig o hyd i weithredu'r cytundebau hyn yn effeithiol, a dylent ddarparu strwythur ar gyfer trafodaethau rhwng gwahanol rannau o'r DU am y dulliau sy'n datblygu o ymdrin â chyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd hyn, gan gynnwys rheoli unrhyw ymwahanu posibl yn y dyfodol. Byddwn yn pwysleisio y bydd yn hanfodol bod y fframweithiau yn cael eu gweithredu yn yr un ysbryd cydweithredol ag y cawsant eu datblygu ynddo, er mwyn i bob gwlad o'r DU fod yn bartneriaid cyfartal mewn trafodaethau.

O safbwynt Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi mynegi pryderon y gallai effeithiau'r Ddeddf hon arwain at effeithiau pellach eto pe bai ymwahaniad rheoleiddiol (er enghraifft, pe bai Llywodraeth y DU yn diwygio neu'n diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir yn Lloegr). Gallai hyn arwain at oblygiadau o ran y gallu i gynnal a gwella safonau, i bob pwrpas, mewn cyfraith yr UE a ddargedwir yng Nghymru. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu trosglwyddo i Lywodraeth y DU.

Ceir rhyngddibyniaeth bosibl arall mewn perthynas â'r cytundebau masnach ryngwladol sy'n cael eu negodi gan Lywodraeth y DU. Bydd angen i unrhyw rwymedigaethau yr eir iddynt fel rhan o berthynas fasnachu newydd fod yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol ac arfaethedig. Fel Llywodraeth, rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw amddiffyniadau a safonau allweddol yn cael eu tanseilio drwy ei negodiadau masnach.

Yr effaith ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Cwestiwn 11: A allech egluro a fydd unrhyw elfennau o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol (er enghraifft y Bil Aer Glân) yn cael eu heffeithio gan y Bil, ac os felly, sut.

Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd y Bil yn effeithio ar weithgareddau ehangach Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau. Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod gan y Bil ar ei ffurf bresennol y potensial i dynnu adnoddau a sylw oddi ar weithgareddau pwysig eraill. Wrth inni ymateb i'r Bil, byddwn hefyd yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu'r gwaith o wireddu ein Rhaglen Lywodraethu a'n rhaglen ddeddfwriaethol.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth yn yr ymateb hwn yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

28 Chwefror 2023

Annwyl Eluned

Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn graffu gyda Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio Cymru, a Gill Knight, Swyddog Nyrsio ar gyfer y Gweithlu, Rheoleiddio, Staff Nyrsio a Datblygu Gwasanaethau, i drafod blaenoriaethau'r Prif Swyddog Nyrsio a materion sy'n effeithio ar nyrsys a nyrsio yng Nghymru.

Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar ein **gwefan** ond roedd rhai materion yn codi yr hoffai'r Pwyllgor eu dwyn i'ch sylw:

Diogelu'r gweithlu

Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym fod hwn yn gyfnod arbennig o anodd i'r sector nyrsio:

"I think it's really challenged. I think it's really very difficult currently. We have a growing number of vacancies, and I think there is work to be done. I'm not sure I would necessarily label it as 'crisis', but I think I would certainly say it is perhaps the most challenged position I have seen in my 31 years as a nurse."

Recriwtio a chadw staff

Nid yw'r pryderon ynghylch recriwtio a chadw nyrsys yn newydd. Mae prinder nyrsys yn broblem fyd-eang. Mae nifer o swyddi gwag mewn gwledydd eraill hefyd ac mae dibyniaeth gynyddol ar recriwtio nyrsys o dramor.

Dywedodd Gill Knight fod £260 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2022-23 ar gyfer addysg a hyfforddiant proffesiynol ym maes gofal iechyd, gan greu'r nifer fwyaf o gyfleoedd hyfforddi erioed yng Nghymru.

Fodd bynnag, cadarnhaodd y Prif Swyddog Nyrsio fod llawer o waith i'w wneud eto i ddwyn perswâd ar bobl i fanteisio ar yr holl gyfleoedd hyfforddi hyn.

Er bod angen sicrhau bod nifer ddigonol o nyrsys newydd yn cael eu hyfforddi, gwella cyfraddau cadw nyrsys i sicrhau bod nyrsys profiadol yn aros yn rhan o'r gweithlu yw un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu. Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym:

"...we have a workforce who are making decisions about the working conditions they are currently under, and making decisions to choose not to stay in nursing."

Gweithio hyblyg

Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym fod staff yn chwilio'n gynyddol am batrymau gweithio hyblyg, cyfleoedd i hyfforddi a datblygu, amser i gymryd seibiant, a'r cyfleusterau a'r amgylchedd iawn i ganiatáu hynny. Pan ofynnwyd iddi a oedd yn bosibl newid contractau mewn ffordd a fyddai'n rhoi hyblygrwydd i nyrsys amrywio eu patrymau gwaith, dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio ei bod yn credu ei bod eisoes o fewn gallu byrddau iechyd i ganiatáu hyblygrwydd wrth ddarparu gwasanaethau:

"And there comes the balance, I think. There is a provision of service for patients that must be sustainable and has to be available, and I think in making those very difficult decisions, flexibility has to be built into that. I don't think it requires a contract change..."

Aeth rhagddi i siarad am yr hyn sy'n cymell cenedlaethau gwahanol i weithio yn y GIG a phwysigrwydd deall sut mae gofynion cenedlaethau gwahanol yn amrywio:

"...the younger generation that are coming through are very different to those of us that started in nursing 30, 40 years ago. They want something completely different. Their flexible working has a different meaning, and we have to be able to work with our newer generations to understand what they require. They want digital technology at their fingertips, and they want it in the workplace..."

Dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio ei bod yn awyddus i gadw'r gweithlu hŷn oherwydd y cyfoeth o brofiad sydd ganddynt, felly roedd yn gweithio gydag AaGIC i ddatblygu rhwydwaith o nyrsys sydd wedi ymddeol i gadw'r arbenigedd hwnnw yn y system:

"When they want to retire they can, but we bring them back to help us, on their terms and their conditions, and they can help the newer generations to settle in, to bed in to the new way of working, and to support them through either a mentor or a coach system."

Defnyddio staff asiantaeth

Dyweddodd y Prif Swyddog Nyrsio fod amrywiaeth o resymau dros benderfyniad nyrsys i weithio mewn sectorau eraill, yn enwedig y rhai sy'n gweithio i asiantaethau, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu, rhesymau ariannol ac oherwydd eu bod yn cynnig math gwahanol o hyblygrwydd nad oedd y GIG yn gallu ei gynnig eto.

Dyweddodd ei bod yn pryderu am yr arian a oedd yn cael ei wario ar staff asiantaeth, fodd bynnag:

"That bill that you just mentioned a minute ago [£140 million] is exceptional. It's possibly the highest we have seen in Wales. Prior to the pandemic, the Welsh Government officials had done an incredible amount of work in reducing the agency bill."

Cadarnhaodd Gill Knight wedyn mai'r gwariant blynyddol ar staff asiantaeth a oedd yn gweithio fel nyrsys a bydwagedd oedd £53,846,000 yn 2016-17 a £51,431,000 yn 2017-2018.

Dyweddodd y Prif Swyddog Nyrsio fod grŵp wedi'i sefydlu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Roedd yn goruchwyllo gwaith effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn ymwneud ag asiantaethau a'r defnydd o staff cronfa. Roedd hefyd yn ystyried cyfraddau cyflog gwell i'n gweithlu, defnyddio cronfa staff ar gyfer Cymru gyfan, a llawer o fesurau eraill i wella cynhyrchiant:

"I think this is a really important one for us to consider and to also work out from the intelligence how we can bring those agency nurses back into the workforce. Because there is a way, and I think we have to be able to have some conversations that are open, honest, but also perhaps a little difficult in understanding what is it that will encourage our agency nurses back into our workforce."

Lles y gweithlu

Yn ôl y Prif Swyddog Nyrsio, roedd y gweithlu, ers y pandemig, yn wynebu problemau iechyd meddwl a chorfforol a chyflyrau iechyd cyffredinol sylweddol:

"I think that is post-traumatic stress, moral injury and distress, and current circumstances will only lead you to have a look and see that nurses have made decisions about their own health in the workplace."

Dyweddodd fod arolwg o nyrsys a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dangos bod pobl yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddod i'r gwaith os nad oeddent yn teimlo'n dda, a'i bod yn bwysig eu bod yn gwybod nad oedd disgwyl iddynt ddod i'r gweithle o dan yr amgylchiadau hynny. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd sicrhau bod nyrsys yn cael cyfnodau o seibiant a bod lle iddynt wneud hynny.



Aeth rhagddi i ddweud bod byrddau iechyd yn gweithio ar nifer o bethau i sicrhau bod iechyd a lles nyrsys yn cael eu sylw:

"But my expectation is that health boards have early supported discussions with the workforce, that they are undertaking to signpost their workforce to the right places for support and help, that we identify quite early on when nurses require additional support from a mental health perspective or a different perspective, and that we are signposting our workforce to those places."

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Dyweddodd y Prif Swyddog Nyrsio fod lefelau cydymffurfio â'r Ddeddf "yn parhau'n uchel", ond bod y sefyllfa'n amrywio ar hyd a lled Cymru:

"...what we are seeing is that there is a greater number of vacancies in some parts of the country than others, and north Wales is one of those organisations with a greater number of vacancies, not necessarily within the 25B wards, but across the entire organisation."

Pan ofynnwyd iddi am ei huchelgais ar gyfer ymestyn y Ddeddf ymhellach, dywedodd y Prif Swyddog Nyrsio ein bod yn awr yn gweithredu o dan amgylchiadau gwahanol iawn:

"There is certainly, I think, scope to continue to monitor and get health boards as compliant with the Act as possible. I think it important also to say at this point that the Act, when developed nine years ago or so, I think was developed for a time and place and point in time, perhaps. I think the landscape is so very different now."

Er bod angen cydymffurfio â deddfwriaeth bob amser, meddai, nid oedd yn argyhoeddedig mai cydymffurfio â'r Ddeddf oedd yr unig ofyniad:

"...I think we need to think bigger and broader around how we actually use the Act to staff our wards in a way that is smart, that is different, that is multiprofessional in nature, because the Act is quite uniprofessional, as you can appreciate, and that is not how patients use our services nor how their care is delivered. So, I think there is a bit of work for us to do to consider the 'what next' with the Act."

Data

Yn ôl y Prif Swyddog Nyrsio:

"...data is the thing that drives us all forward, data is what we base our improvements on and data is what we're looking for."

Mae'n siomedig felly mai Cymru yw'r unig ran o'r DU nad yw'n cyhoeddi data ynghylch swyddi gwag ym maes nyrsio ar hyn o bryd.

Nid yw cofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn darparu data wedi'u dadgyfuno mewn perthynas â chadw staff felly nid yw'n bosibl nodi a oes arbenigeddau neu fyrddau iechyd penodol sy'n cael anawsterau. Hefyd, er bod gan fyrddau iechyd ddata cadw staff ar gyfer eu hardaloedd eu hunain, clywsom nad yw'r data hyn yn cael eu coladu a'u cadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru.

Dyweddodd y Prif Swyddog Nyrsio wrthym:


"...there is no reason why that data is not available other than we currently have a technological issue with getting that data through to us, and that is where the Minister has been really clear, and so have I, that not having transparency of data from a health board level on vacancies and retention in the way in which we would like to see it is not an acceptable position for us in Wales. We have to be able to address that, and we are currently working with HEIW to understand how we can get that data through on an all-Wales level."

Clywsom hefyd nad yw data'n cael eu casglu ynghylch proffil oedran nyrsys asiantaeth, nac ynghylch y meysydd y maent yn cael eu cyflogi ynddynt.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad yng nghynllun gweithredu cenedlaethol y gweithlu (a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2023) y bydd Llywodraeth Cymru, erbyn mis Mehefin 2023, yn cyhoeddi data swyddi gwag mewn perthynas â'r gweithlu a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru. Bydd y data hyn yn fuddiol inni yn ein gwaith craffu, yn ogystal â bod o ddiddordeb i randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r materion a drafodwyd gyda'r Prif Swyddog Nyrsio yn bwysig, a byddwn yn parhau i'w hystyried, ac yn monitro cynnydd, wrth inni barhau i ganolbwyntio ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn y Senedd hon.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

cc Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio Cymru



26 February 2023

Via email: Russell.George@senedd.wales

Russell George MS
Chair, Health & Social Care Committee
The Senedd

Dear Mr George

General Dental Services (GDS) Reform

I trust this finds you well.

Further to our various recent communications, I wish to thank you for the committee's report on dentistry and to give you an update on developments.

The health committee's report has been broadly welcomed by the BDA and we are grateful for the work undertaken by the committee to understand the complexities surrounding NHS dentistry in Wales. The Welsh General Dental Practice Committee is due to meet soon and will be discussing your committee's recommendations in detail. I will write a full response subsequently.

Meanwhile, I wish to bring to your attention latest findings by BDA Cymru. (See **Appendix 1**) We undertook a rapid survey of high street dentists to gauge their views of the political climate regarding dentistry and their views of contract reform – particularly their plans for the forthcoming FY 2023-24. The responses are unequivocal. While we are mindful that sentiment, intention, and action are not always perfectly aligned, the strength of feelings and the scale of imminent actions make for sobering reading.

The picture is clear and one that we have been painting for many months, that NHS dentists are perilously close to **breakpoint**. It is highly regrettable that our warnings have been repeatedly disregarded by government officials, as we exposed in our [open letter to the CDO](#) last month. Unfortunately, this has been met with nothing other than disapproval by government officials and certainly with no sign of appetite to engage.

Our messages have also been deeply buried whenever government answers are given to questions in the Senedd Plenary debates. The tone of the government's replies has been growing noticeably colder towards dentists over the last year, but the recent declaration regarding clawback by the Health Minister was the final straw for many. Dentists were deeply offended by the tone and the lack of insight displayed. Moreover, they refute the

widely broadcast claims by Welsh Government that the reform programme is working – almost all responses were in disagreement, the vast majority strongly so.

As a result, this Monday there is likely to be media coverage of our findings, giving dentists the right of public reply and an opportunity to put the record straight. Your office has probably been approached by the BBC for comment.

Although this is an important moment in the public debate, our goal is to spark dialogue in a constructive manner with all parties. We have the same aim, which is to improve the NHS dental service, but we seem further away now than ever in finding mutually agreeable solutions. In fact, maintaining the provision that we have is looking increasingly in jeopardy.

You may be aware that the BDA has been invited to commence formal contract negotiations regarding the GDS contract. We are encouraged by this development, but have considerable reservations about the intended timescale, and the timing of the invitation. When I write again, I may be able to update you on progress.

While the legislation needs reform, we don't see that as the most pressing concern. The current experimental reform volumetrics and the unverified reconciliation mechanisms need an urgent overhaul and we have called for eleventh-hour talks with government officials. The prospect of clawback will be the breakpoint for many practices and the deciding factor to withdraw from NHS dentistry.

The immediate financial investment in NHS dentistry and dentists is a crucial issue. This is true across the UK. The aftermath of the pandemic, galloping inflation and an uplift to the contract of only 4.5% in this high inflation year are taking a heavy toll on practices.

It is dire news indeed, therefore, that the UK government has just announced a **cap of 3.5%** for the next round of DDRB negotiations. (See **Appendix 2**) This news will probably cause an even greater exodus from the GDS than is already indicated from our survey findings and the evidence in [our report to the DDRB](#). Certainly, where it is directly applicable in England this news has been met with deep dismay, and with the UK in recession it seems futile to imagine it could be a different outcome in Wales.

We have a meeting scheduled with Baroness Morgan in three weeks' time and will be making the same arguments then.

I look forward to an opportunity to discuss this with you.

Yours sincerely



Dr Russell Gidney
Chair, WGDPC

Appendix 1

250 General Dental Practitioners (GDPs) responded to our survey:

We asked for thoughts on the health minister's recent comments on clawback in the Senedd:

15:56:04 "... Of course, when you introduce something new, there is a little bit of difficulty and tension in the system. Obviously, if we're going to pay people to do a job, they need to deliver on that job, and if they don't deliver on that job, yes, we are going to claw back money. I'm not going to apologise for that, because we are the guardians of the taxpayers' money as well. That is the deal. You pay for a service, if you don't deliver the service, you're not going to get paid. So, they [dentists] may not like that, but I'm afraid that is the situation...
...So, I'm not going to apologise for the contract that we've put in place... We're trying to achieve this in the face of very severe financial constraints where we have to maximise the ability of the taxpayer to get as much as they can from the system. **Eluned Morgan MS, 31 January 2023**

and 96% disagreed:

- "I found this infuriating to read, and I am disgusted the minister has such little regard for the profession. Such belittling comments from someone who has absolutely no clue what it's like day to day doing NHS dentistry - it's insulting to read this."
- "... We are at saturation point now, which means dentists will simply leave if clawbacks are enforced without very good reason with the contract so heavily stretched as it is."
- "This is truly offensive to dentists who have worked tirelessly in the last 12 months to meet targets that are completely made up and have no relevance on the needs of the patients walking through the door."
- "My practice may not have a future. I am a young practice owner. The health minister should be encouraging people like me to stay in the system. She is doing the absolute opposite. Running costs have become extortionate. If claw back happens it will be catastrophic."

Minister Eluned Morgan told the BBC last month:

"The system has changed. It's working. Of course, there may be frustrations from some dentists who may not like the new system, but it's very, very much a minority." **Eluned Morgan MS**

And 96.8% disagreed:

- "... I have yet to meet a happy dentist under this contract. Of the 10 dentists I work with 4 are leaving due to this contract. I suspect this is what she wants. So that NHS dentistry no longer needs to be funded when there are no more dentists left willing to work for it."
- "Totally out of touch!! Every dentist I've spoken with who works in the NHS has expressed unhappiness of the current system."
- "Everyone working on NHS has had enough. I earn less than 15 years ago. Private work props up the NHS. The system has been ruined for years. UDAS were terrible. ACORNS add a new layer of nonsense to the profession. I struggle to fit in all my regular patients without now having a metric for new patients."

We asked whether dentists support the **current reform measures and volumetrics**. Responses were in overwhelming **disagreement (90%)**. Comments included too much pressure to see high volumes of patients which results in *poorer levels of care*, too many *metrics that are impossible to meet* and *mental wellbeing in the worst state* it has ever been in.

Looking at our options ahead for 2023-24 the picture is deeply troubling for the sustainability of NHS dentistry:

Over 70% of practice owners in the **reform programme** are expecting clawback this year. Not surprisingly only 39% intend to stay in the reform program in 2023-24. A further 15% intend to revert to the UDA-only default position. Nearly a third intend to reduce the contract value for 2023-24 and on current projections around 13% intend to hand back contracts at the end of this financial year.

The prospects viewed by practice owners on the **UDA-only contract** are hardly any better. Clawback is expected in over 63% of practices and a similar number (61%) expect to stay with UDAs next year. Over a quarter will reduce their contract value and approximately 18% will hand back contracts at the end of this year.

The figures are provided below:

Q. Please select all options below that are likely for your practice (Sub sample 203 GDPs identifying as practice owners working in contract reform).

- My practice will be subject to clawback for 2022-23 by the LHB **70.9% (144)**
- My practice will stay with the reform volumetrics in 2023-24 **39.4% (80)**
- My practice will revert to UDAs in 2023-24 **15.3% (31)**
- My practice will reduce the value of its GDS contract for 2023 **31.5% (64)**
- My practice will hand back its GDS contract by March 2023 **12.8% (26)**

Q. Please select all options below that are likely for your practice (Sub sample 33 GDPs identifying as practice owners working UDA only contracts).

- My practice will be subject to clawback for 2022-23 by the LHB **63.6% (21)**
- My practice will stay with UDAs in 2023-24 **60.6% (20)**
- My practice will take up the reform volumetrics in 2023-24 **12.1% (4)**
- My practice will reduce the value of its GDS contract for 2023 **27.2% (9)**
- My practice will hand back its GDS contract by March 2023 **18.2% (6)**

Appendix 2

The Department of Health and Social Care's [written evidence](#) to the Doctors' and Dentists' Remuneration Body (DDRB) for the pay round 2023 to 2024 - Published 21 February 2023

Affordability

“Through the current financial settlement provided by HM Treasury to the department and reprioritisation decisions, funding is available for pay awards up to 3.5% for the relevant staff groups within DDRB remit this year. Pay awards above this level would require trade-offs for public service delivery or further government borrowing at a time when headroom against fiscal rules is historically low and sustainable public finances are vital in the fight against inflation.”

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol

28 Chwefror 2023

Meddyginiaeth ar gyfer pryderon iechyd meddwl

Annwyl Russell,

Fel y gwyddoch efallai, rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ein hymchwiliad wedi'i ysgogi gan leisiau plant a phobl ifanc. Rydym yn benderfynol y bydd eu safbwyntiau a'u profiadau yn llywio ein hadroddiad terfynol a'i argymhellion.

Yn ystod yr hydref, fe wnaethom gynnal ymweliadau ymgysylltu anffurfiol ledled Cymru i siarad â rhieni geni (rhieni sydd wedi cael/sydd yn y broses o gael plentyn wedi'i dynnu o'u gofal) am eu profiadau o'r system ofal a'u safbwyntiau yn ei chylch. Ar 26 Ionawr, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid gyda rhieni geni i ategu ein hymweliadau ymgysylltu er mwyn rhoi cyfle i gynifer o rieni ifanc â phosibl gyfrannu at ein gwaith. Roedd gan fwyafrif helaeth y rhieni ifanc hyn brofiad o fod mewn gofal eu hunain, gyda llawer yn dweud wrthym eu bod wedi profi trawma sylweddol yn ystod plentynod.

Roedd llawer o'r pethau a ddywedodd y bobl ifanc wrthym yn peri gofid a phryder mawr. Hoffwn godi un o'u pryderon gyda chi yn benodol: eglurodd rhai rhieni geni wrthym fod arnynt ofn siarad â'u meddyg teulu am sgil-ffeithiau negyddol meddyginiaeth ar bresgripsiwn i wella eu hiechyd meddwl. Maent yn ofni y gallai codi pryderon am sgil-ffeithiau gael ei ddehongli gan weithwyr cymdeithasol fel amharodrydd i gymryd camau i wella eu hiechyd meddwl, ac y gallai hyn, yn ei dro, gyfrannu at weithwyr cymdeithasol neu eraill yn gwneud dyfarniadau negyddol am eu gallu i roi gofal digonol a phriodol i'w baban neu blentyn.

Enghraifft 1: Dywedodd un rhiant geni wrthym ei bod yn cael trafferth gydag iechyd meddwl gwael a gorbryder. Rhoddodd ei meddyg bresgripsiwn iddi ar gyfer gwrthiselyddion. Fodd bynnag, mae hi wedi stopio cymryd y gwrthiselyddion am eu bod wedi gwneud iddi deimlo'n waeth ac ymddwyn yn

afreolaidd. Pan wnaethom ofyn iddi a oedd hi wedi siarad â'i meddyg teulu am ei phryderon, dywedodd wrthym fod meddygon teulu yn tueddu i godi dos y gwrthiselyddion os bydd cleifion yn profi sgil-ffeithiau fel ei rhai hi. Mae'n poeni y gallai dos uwch wneud y sgil-ffeithiau yn waeth ac, os felly, y byddai hynny'n ei gwneud yn anoddach iddi ofalu am ei phlentyn.

Enghraifft 2: Dywedodd un rhiant geni wrthym fod ei gorbryder a'i hiselder yn golygu ei bod yn cael trafferth cysgu. Rhoddodd ei meddyg teulu bresgripsiwn iddi ar gyfer tabledi cysgu. Fodd bynnag, mae hi wedi stopio cymryd y tabledi oherwydd eu bod mor gryf mae'n ei chael yn anodd diuno yn y bore. Teimlai fod y tabledi wedi gwneud iddi golli apwyntiadau a chyfarfodydd pwysig, a'i gwneud yn anodd iddi hyd yn oed ddihuno gyda'i phlentyn.

Yn y ddau achos hyn, mae'r menywod ifanc hyn wedi stopio cymryd eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn oherwydd effaith y sgil-ffeithiau ar eu gallu i ofalu am eu plant. Nid ydynt wedi dweud wrth eu meddygon teulu am y sgil-ffeithiau rhag ofn y bydd y meddygon naill ai'n codi'r dos neu'n rhoi presgripsiwn am feddyginiaeth arall, cryfach. Nid ydynt ychwaith wedi dweud wrth eu meddygon teulu eu bod wedi stopio cymryd y feddyginiaeth. Er eu bod yn teimlo bod y feddyginiaeth yn eu gwneud yn *llai* abl i ofalu am eu plant, roeddent yn pryderu'n fawr y gallai'r gwasanaethau cymdeithasol gael mynediad at eu cofnodion meddygol a chymryd safbwynt negyddol pe byddent yn gwrthod presgripsiwn am feddyginiaeth sydd i fod i wella eu hiechyd meddwl.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau o'n gwaith ymgysylltu a'n digwyddiadau rhanddeiliaid yn fuan, a bydd hwn yn nodi'r pryderon hyn yn fanylach.

Fodd bynnag, oherwydd amserlen yr ymchwiliad, ni fyddwn yn gallu rhoi i'r mater hollbwysig hwn yr amser a'r sylw y mae'n eu haeddu.

Gobeithio felly y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi ac y gallwch ei hystyried fel rhan o unrhyw waith yr ydych yn ymgymryd ag ef ar feddyginiaeth ar gyfer problemau iechyd meddwl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod yn uniongyrchol, a byddant yn hapus i ddarparu deunydd briffio ychwanegol ar ein canfyddiadau hyd yma.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon